



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3
Gorffennaf 2012

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU
CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 11 GORFFENNAF 2012 am 9.30 am yn
YSTAFELL PWYLLGOR 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN I – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU RHAN HON Y CYFARFOD

1 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3 YMDDIHEURIADAU

Derbyn ymddiheuriadau.

4 DATGAN BUDDIANNAU

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w drafod yn y cyfarfod hwn.

5 MATERION BRYD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

6 COFNODION (Tudalennau 1 - 6)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28ain Mawrth 2012.

7 RHAGLEN REOLEIDDIO SAC AR GYFER ARCHWILIO PERFFORMIAD 2012-13 (Tudalennau 7 - 24)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol (copi'n amgaeedig) ar Raglen Reoleiddio Archwilio Perfformiad 2012/13 ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru.

9.35 a.m. – 10.00 a.m.

8 ADBORTH ADOLYGIAD TECHNOLEG SAC (Tudalennau 25 - 38)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol (copi'n amgaeedig) a oedd yn rhoi adborth gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl adolygiad technoleg yng Nghyngor Sir Ddinbych.

10.00 a.m. – 10.25 a.m.

9 ADOLYGIAD RHEOLI RISG STRATEGOL: ADRODDIAD TERFYNU (Tudalennau 39 - 52)

Ystyried adroddiad gan Reolwr y Tîm Gwelliannau Corfforaethol (copi'n amgaeedig) ar adroddiad terfynu prosiect ar gyfer Prosiect Adolygu Rheoli Risg Strategol.

10.25 a.m. – 10.50 a.m.

Egwyl Gysur

10 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2011/12 (Tudalennau 53 - 72)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12.

11.05 a.m. – 11.30 a.m.

11 ADRODDIAD DRAFFT BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2011/12 (Tudalennau 73 - 82)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2011/12.

11.30 a.m. – 11.45 a.m.

12 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 83 - 92)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, rhoi sicrhad, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd o ran gyrru gwelliannau.

11.45 a.m. – 12.05 p.m.

13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR I'R DYFODOL (Tudalennau 93 - 96)

Ystyried rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2012/13 (copi'n amgaeedig).

12.05 a.m. – 12.15 p.m.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Raymond Bartley
Stuart Davies
Martyn Holland

Gwyneth Kensler
Jason McLellan
David Simmons

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstey, Rhuthun, Ddydd Mercher 28 Mawrth 2012 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr John Bellis (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies a Barbara Smith (Is-gadeirydd)

HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IB), Rheolwr Archwilio (BS), Rheolwr Archwilio – Swyddfa Archwilio Cymru (AV), Arweinydd Cyswllt Archwilio Ariannol – Swyddfa Archwilio Cymru (DO), Swyddog Gweinyddol y Pwyllgor (SW) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (RH).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Glyn Jones ac Allan Pennington

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd buddiannau sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd Ddydd Mercher, 8 Chwefror, 2012.

Penderfyniad ar gyfer Eitem 5 - Trafodwyd y Strategaeth Rheoli Trysorlys ac ar ôl eglurhad gofynnodd y Cadeirydd i'r geiriad gael ei newid i adlewyrchu bod y Pwyllgor 'wedi derbyn' yr adroddiad yn hytrach nag 'yn derbyn', er mwyn ei gwneud hi'n amlwg nad oedd disgwyl adroddiad pellach.

Nid oedd y Cynghorydd M.L. Davies yn gallu bod yn bresennol o ddechrau'r cyfarfod ond roedd wedi anfon sylwadau wrth ragweld ei absenoldeb. Roedd y Cynghorydd Davies yn cofio bod adroddiad i'r dyfodol wedi'i argymhell yn ystod trafod Eitem 6 - Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio, ond nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn yr argymhelliad. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd yn cofio argymhelliad penodol ar gyfer adroddiad pellach,

ond y gallai Eitem gael ei chynnwys ar y Flaenraglen Waith i'w hystyried yn y dyfodol.

Yn dilyn ymlaen o ymholiad a godwyd yn y cyfarfod blaenorol gan y Cynghorydd G.A. Jones, roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn gallu cadarnhau y byddai'r drysau diogelwch yn datgloi yn awtomatig mewn sefyllfaoedd o argyfwng.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar sylwadau'r Pwyllgor, y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.

5 AMLINELLIAD ARCHWILIAD ARIANNOL BLYNYDDOL

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau adroddiad, a ddisbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn cyflwyno'r Amlinelliad Archwiliad Ariannol Blynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Esboniodd Mr Anthony Veale, Rheolwr Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru, bod yr Amlinelliad Archwiliad Ariannol Blynyddol yn ofyniad yn y Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 sy'n archwilio ac yn tystio bod cyfrifon y Cyngor yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor, yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth perthnasol ac wedi'u paratoi yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Esboniwyd ymdriniaeth tîm archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ac roedd yr adroddiad yn rhoi manylion y risgiau sydd wedi'u canfod, adolygiad ar ddefnydd yr adnoddau a'r dulliau ar gyfer adrodd ar gynnydd trwy gydol yr archwiliad. Rhoddwyd y cerrig milltir allweddol fel a ganlyn:

- Amlinelliad Archwiliad Ariannol Blynyddol (Ionawr 2012 - Mawrth 2012)
- Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol (ISA260) (Mehefin 2012 - Medi 2012)
- Barn Archwilio ar ddatganiadau ariannol 2011-12 (Ionawr 2012 - Medi 2012)
- Llythyr Archwilio Blynyddol (Hydref 2012 - Tachwedd 2012)

Gosodwyd y ffi arfaethedig ar gyfer y gwaith archwilio ar £165,802 (ynghyd â TAW) a fyddai'n daladwy rhwng Tachwedd 2011 a Hydref 2012, ac amcangyfrifwyd bod cyfanswm y ffi ar gyfer gwaith grant rhwng £90 mil a £100 mil.

Nododd y Cadeirydd bod y ffi sydd wedi'i hamcangyfrif ar gyfer y gwaith grant yn uchel iawn a gofynnodd sut yr oedd yn cymharu â blynyddoedd blaenorol. Ymatebodd Mr Veale bod y ffi yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf ond pwysleisiodd mai amcangyfrif yn unig oedd y cyfanswm a'i fod yn agored i newidiadau. Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd M.L. Davies a oedd wedi gofyn pam yr oedd yn rhaid i'r Cyngor dalu am waith ychwanegol wrth drin ymholiadau. Esboniodd Mr Derwyn Owen, Arweinydd Cyswllt Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, bod yr ymholiadau yn codi gan y cyhoedd ac y gallai'r ymchwiliadau arwain at waith ychwanegol sylweddol. Nododd Mr Owen ymhellach bod gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru godi tâl ar y Sir am waith ychwanegol sy'n codi o ymholiadau o'r fath. Nododd Mr Veale pe bai angen swm sylweddol o waith ychwanegol o ganlyniad i ymholiad yna byddai hyn yn cael ei glirio gydag uwch swyddogion o fewn Cyngor Sir Ddinbych yn gyntaf, ond y llynedd roedd gwaith

ychwanegol o'r fath yn finimal ac mai dim ond canran fechan iawn o'r ffi gyffredinol oedd y ffi ychwanegol.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Chamberlain-Jones pam bod cost yr archwiliad mor uchel a gofynnodd am ddadansoddiad o'r ffioedd a godir. Esboniodd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru bod yr archwiliad yn ofyniad statudol a oedd yn gofyn am swm sylweddol o waith dros gyfnod hir o amser. Oherwydd maint y Cyngor a graddau'r gwaith sy'n ofynnol yn ystod yr archwiliad, dywedwyd bod costau Sir Ddinbych yn weddol isel o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill.

Hysbysodd Pennaeth Cyllid ac Asedau y Pwyllgor y byddai archwilio grantiau i gyfrif am gyfran arwyddocaol o'r ffi a godir, ond bod hyn i'w briodoli i lefel y manylion a nodir gan Lywodraeth Cymru a bod yn rhaid i'r Cyngor gydymffurfio.

PENDERFYNWYD – *bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad yn rhoi manylion Amlinelliad yr Archwiliad Ariannol Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.*

6 ADRODDIADAU ARCHWILIO MEWNOL SYDD WEDI'U CYHOEDDI

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn rhoi diweddariad ariannol ar gyfer 2011/12 ar yr adroddiadau yr oedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar. Esboniwyd y byddai'r wybodaeth hon fel arfer yn ffurfio rhan o'r adroddiad cynnydd rheolaidd, ond bod cynnydd arall yn cael ei adrodd yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn ddiweddarach yn y cyfarfod, felly roedd yr adroddiad hwn wedi'i gynhyrchu ar wahân.

Rhoddwyd manylion y fformat adrodd newydd wedi'i seilio ar y broses rheoli risgiau sy'n defnyddio lliwiau i gynrychioli cyfraddau sicrwydd (Sicrwydd Uchel - Gwyrdd, Sicrwydd Cymedrol - Melyn, Sicrwydd Isel - Ambr, Dim Sicrwydd - Coch) yn hytrach na'r system flaenorol o sgorio categorïau 1-5. Rhoddwyd ffigurau o archwiliadau diweddar i ddangos y newid yn y system sgorio, a fydd bellach yn canolbwyntio ar adnabod materion yr oedd angen eu codi.

Holodd yr Aelodau sut y byddai'r system sgorio newydd yn gweithio'n ymarferol, yn enwedig o ran sut y byddai'n rhaid i sgôr niwtral blaenorol o '3' ddisgyn naill ai o fewn y categori Melyn neu Amber erbyn hyn. Dywedodd y Pennaeth Archwilio Mewnol o dan amgylchiadau o'r fath byddai'n rhaid i benderfyniad gael ei wneud y naill ffordd neu'r llall gan nad oedd opsiwn ganol yn bodoli ond y byddai'r amodau newydd yn rhoi asesiad mwy ymarferol o sicrwydd gwasanaeth, ac roedd yn rhagweld y byddai mwy o enghreifftiau o sgorio Gwyrdd o'i gymharu â sgôr uchel '5' o dan y model blaenorol.

Arsylwodd y Cynghorydd B.A. Smith bod archwilio Comisiynu a Chytundebu wedi tynnu sylw at dair risg Gymedrol 'Melyn', ond eu bod yn cael eu hystyried yn 'Wyrdd' yn gyffredinol. Esboniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod hwn yn sgôr gyfreithiol os oedd yr archwilydd yn teimlo bod y gwasanaeth cyffredinol yn cael ei drin yn dda ond pwysleisiodd fod gan yr adran Archwilio Mewnol ei dulliau rheoli

ansawdd ei hun er mwyn sicrhau ymdriniaeth gyson tuag at y broses gyfradd sicrwydd.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac yn nodi'r broses newydd ar gyfer asesu sicrwydd risg.

7 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2011/12

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol gopi drafft o'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol 2011/12, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn crynhoi'r gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod y 12 mis blaenorol, gan dynnu sylw at faterion sy'n berthnasol i'r adroddiad llywodraethu blaenorol, ac a oedd yn rhoi asesiad cyffredinol o effeithlonrwydd amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor. Roedd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo (CIPFA) yn gofyn i adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mehefin 2012, ond gan fod y Pwyllgor yn eistedd yn ei gyfansoddiad presennol am y tro olaf cyflwynwyd yr adroddiad ar ei ffurf drafft cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion perfformiad Archwilio Mewnol yn erbyn nifer o fesurau, ac yr oedd yr holl dargedau wedi'u bodloni. Roedd hyn yn cynnwys gwelliant o 58% yn yr amser a gymerir i gwblhau prosiectau a 93% o welliant yn yr amser a gymerir i wasanaethau weithredu argymhellion dilynol o adroddiadau archwilio. Gan ddefnyddio'r meini prawf asesu newydd gosodwyd perfformiad y Cyngor yn gyffredinol yn y categori 'Sicrwydd Cymedrol' Melyn.

Gofynnodd y Cadeirydd sut yr oedd yr adran Archwilio Mewnol yn delio ag adborth negyddol a dywedwyd bod unrhyw feirniadaeth yn cael ei thrafod gyda'r tîm er mwyn adnabod sut y gellir gwella'r gwasanaeth. Nodwyd bod rôl archwilydd yn naturiol yn tynnu gwrthwynebiad felly ni fyddai swm bach o negyddiaeth o reidrwydd yn arwydd o berfformiad gwael.

Sylwodd y Pwyllgor hefyd bod y cyfanswm cyffredinol ar gyfer yr 'union' ddyddiau a dreuliodd yn archwilio yn is na'r dyddiau arfaethedig gwreiddiol. Esboniwyd bod graddfeydd amser amcan wedi'u defnyddio wrth gynllunio ac, yn ystod y flwyddyn, roedd newidiadau wedi bod i'r staff yn ogystal ag absenoldeb mamolaeth. Hefyd, nid oedd yr union amser yn gwbl gyfredol adeg ysgrifennu'r adroddiad, gan nad oedd y flwyddyn wedi dod i ben hyd yn hyn. Roedd yr amser a dreuliodd yn archwilio Ysgol St Brigid wedi bod yn sylweddol hwy na'r disgwyl, ond dywedwyd bod hyn yn angenrheidiol mewn ymateb i broblemau y daethpwyd ar eu traws, a hefyd yn enghraifft mai amcangyfrif yn unig yw'r dyddiau arfaethedig gwreiddiol o ba mor hir y bydd archwiliad yn cymryd.

PENDERFYNWYD – bod y Pwyllgor yn nodi'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol drafft 2011/12 cyn cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar ei ffurf newydd ar ôl etholiad yr awdurdod lleol.

8 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2012/13

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol 2012-13 fel sy'n

ofynnol gan gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Roedd y strategaeth yn amlinellu nifer y dyddiau a ddyrannwyd i bob maes adolygu, yn rhoi manylion cyfyngiadau cyllidebol y gwasanaeth, ac yn sefydlu mesurau perfformiad ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Gofynnodd y Cynghorydd M.L. Davies pam bod cytundebau i ymgymryd â gwaith archwilio ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu hystyried wrth risg. Esboniodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod disgwyl i'r cytundebau hyn ddod i ben yn 2013 a 2014 yn y drefn honno, a bryd hynny gobeithir y byddai'r Cyngor yn cael ei wahodd i dendro am y cytundebau. Roedd y broses dendro yn golygu na ellid gwarantu estyniad i'r cytundeb, ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r sefyllfaoedd gan nad oedd hi'n bosibl rhagfynegi canlyniad y tendr. Eglurodd Mr Owen o Swyddfa Archwilio Cymru mai dim ond yn y cyfnod ymgynghori oedd y broses o greu un corff i ymgymryd â swyddogaeth Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac nid oedd wedi'i gwblhau.

Holodd y Cynghorydd B.A. Smith pam bod systemau ariannol yn y Rhyl yn cael eu harchwilio gan y tîm Archwilio Mewnol os oedd Swyddfa Archwilio Cymru eisoes yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod y ddau dîm yn cydweithio ond yn edrych ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth yn gyffredinol. Pe bai Swyddfa Archwilio Cymru yn ymgymryd â'r gwaith yr oedd y tîm Archwilio Mewnol yn ei drin byddai gofyn am gryn dipyn o amser ychwanegol, a fyddai o reidrwydd yn cynyddu'r ffi sy'n daladwy i Swyddfa Archwilio Cymru.

PENDERFYNWYD – *bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cefnogi'r Strategaeth Archwilio Mewnol 2012/13.*

9 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2012/13

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Flaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a rhoddodd ddiweddariad ar y datblygiadau diweddar.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod yr hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau wedi'i wneud yn orfodol, gyda hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer 9 Mai gyda sesiwn ddiweddarau ym mis Hydref. Byddai'r rheini nad oeddynt yn gallu mynychu'r sesiynau yn cael mynediad at ddogfennau hyfforddi electronig i sicrhau bod holl Aelodau'r Cyngor yn gyfarwydd â'r Cod Ymddygiad. Byddai'r holl ymgeiswyr yn yr etholiad yn derbyn rhaglen hyfforddi a byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cynhyrchu arweiniad ar gyfer Cynghorwyr.

Gofynnodd y Cynghorydd B.A. Smith pa un a fyddai'r hyfforddiant gorfodol yn berthnasol i Gynghorau Cymuned a Thref ac ymatebodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y Pwyllgor Safonau wedi argymhell bod y Cynghorau Cymuned a Thref yn derbyn y cynigion, ond yn gallu gwneud penderfyniad ar bresenoldeb gorfodol yn yr hyfforddiant eu hunain.

Gofynnodd Mr Owen i'r adroddiad allanol, yn rhoi'r Farn Archwilio derfynol ar Ddatganiadau Ariannol 2011-12, a oedd wedi'i threfnu ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor

Llywodraethu Corfforaethol ar 5 Medi 2012, gael ei ohirio hyd at yn ddiweddarach y mis hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor gan benderfynu y byddai'n rhaid trefnu cyfarfod arbennig i ystyried yr adroddiad ar ddyddiad yn y dyfodol i'w gadarnhau.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ddiweddariad ar yr arweiniad ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yr oedd disgwyl ei gyhoeddi ym mis Ebrill i'w weithredu ym mis Mai, ac roedd yn codi nifer o faterion gyda'r Pwyllgor. Roedd yr arweiniad drafft a oedd wedi'i dderbyn yn nodi y byddai angen i'r Pwyllgor Archwilio gael ei sefydlu a fyddai'n ymgymryd â rhai o swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol presennol. Awgrymodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd o ystyried y trawsgroesiad, fe allai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol barhau yn ei ffurf bresennol ond hefyd eistedd fel y 'Pwyllgor Archwilio' yn ôl y gofyn. Byddai angen aelod llewg ar y Pwyllgor Archwilio hefyd, ond ni ellid hysbysebu'r cyfle hyd oni y byddai'r Mesur wedi'i weithredu. Nodwyd hefyd y byddai Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cael eu pleidleisio gan y Cyngor llawn yn hytrach na chan y Pwyllgorau Craffu eu hunain, wrth ystyried y rheoliadau ar gytbwysedd gwleidyddol.

Cynigiodd y Cynghorydd Smith y dylai adroddiad ar adolygiad y Cyfansoddiad gael ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith, a chytunodd y Pwyllgor y byddai'r eitem yn cael ei hystyried ym mis Ebrill 2013.

PENDERFYNWYD – yn amodol ar y diwygiadau uchod, y dylai'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen Waith.

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 11 Gorffennaf 2012

Swyddog Arweiniol: Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad

Awdur yr Adroddiad: Tony Ward, Swyddog Tîm Gwella Corfforaethol

Teitl: Rhaglen Reoleiddio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Rhaglen Reoleiddio Archwilio Perfformiad 2012-13 ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth ar y gwaith archwilio perfformiad a ymgwymerir yng Nghyngor Sir Ddinbych gan SAC yn ystod 2012-13.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n ystyried y rhaglen reoleiddio, ynghlwm yn Atodiad 1, a chodi unrhyw faterion neu ymholiadau gyda SAC a fydd yn bresennol i gyflwyno rhaglen.

4. Manylion yr adroddiad

Mae'r rhaglen reoleiddio hon yn amlinellu gwaith i'w wneud gan ac ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'n crynhoi: gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer 2012-13; rolau a chyfrifoldebau staff perthnasol SAC, a ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yr Archwiliwr Cyffredinol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae llawer o'r gwaith archwilio perfformiad yn ymwneud yn uniongyrchol â Blaenoriaethau Corfforaethol a Chynllun Corfforaethol y cyngor, o ran adlewyrchu ar ein llwyddiant yn cyflawni Cynllun Corfforaethol 2009-12, ein hagwedd tuag at ddatblygu Cynllun Corfforaethol 2012-17. Er enghraifft, mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliad blynyddol cynllun gwella'r cyngor (h.y. y Cynllun Corfforaethol) a hunanasesu perfformiad (h.y. adolygiad blynyddol perfformiad mewn perthynas â'n Cynllun Corfforaethol).

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio gwasanaethau eraill?

Ffi arfaethedig SAC ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yn 2012-13 yw £120,880 (+ TAW) fel y manylir yn Atodiad 4 i'r Rhaglen Reoleiddio.

7. Pa ymgynghori a fu?

Trafodwyd y rhaglen reoleiddio ddrafft gyda'r swyddogion perthnasol, gan gynnwys y Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad a Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol, cyn cael ei chymeradwyo gan y Prif Weithredwr.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r allbynnau o'r gwaith archwilio perfformiad yn cynnwys adroddiadau gan gyrrff rheoleiddio (megis SAC), ac mae "perygl adroddiad(au) negyddol arwyddocaol gan reoleiddwyr allanol" yn cael ei nodi fel risg ar ein Cofrestr Risg Gorfforaethol. Ein Fframwaith Rheoli Perfformiad Corfforaethol yw'r prif arf rheoli sy'n bodoli i reoli'r risg, ac mae'r camau canlynol wedi eu nodi fel rhai sydd angen eu cymryd i leihau ymhellach risg weddillol:

- Datblygu fframwaith mwy ffurfiol i gydgyssylltu hunanasesiadau i gefnogi gweithgareddau rheoleiddio.
- Gweithredu agwedd newydd tuag at bennu targedau (fel y cytunwyd gan yr Uwch Dîm Arwain) ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth 2012-13.
- Cyflwyno hyfforddiant rheoli perfformiad ar gyfer Aelodau newydd (gan gynnwys pennu targedau).

9. Pŵer i gymryd y Penderfyniad

Papur er gwybodaeth yw hwn, yn hytrach na phenderfyniad.



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13

Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd: Mehefin 2012

Cyfeirnod y ddogfen: 343A2011

Statws y ddogfen

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) a, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n berthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti berthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Paratowyd y ddogfen hon gan Gwilym Bury a Huw Lloyd Jones o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

Cynnwys

Rhaglen Reoleiddio ar gyfer Archwilio Perfformiad 2012-13

Gwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Sir Ddinbych	4
Yr Asesiad Gwella	4
Cyflwyno Adroddiadau	6
Astudiaethau llywodraeth leol	6
Gwaith arall a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i lywio ei waitharchwilio perfformiad yn y Cyngor	7
Gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig	7
Gwaith rheoleiddwyr perthnasol	8
Rhaglen gwaith archwilio perfformiad lleol yr Archwilydd Cyffredinol yng nghyrrff unigol y GIG	8
Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian	8
Gwaith ygallai'r Cyngor fod wedi'i gomisiynu	9
Atodiadau	
Gwaith archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2012-13	10
Rolau a chyfrifoldebau	11
Tîm archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol	13
Ffioedd	14
Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian	15

Rhaglen Reoleiddio

Gwaith archwilio perfformiad yng Nghyngor Sir Ddinbych

1. Mae'r adran hon yn nodi'r gwaith i'w gyflawni gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhannau 2 a 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
2. Staff Swyddfa Archwilio Cymru fydd yn cyflawni'r gwaith.
3. Mae **Atodiad 1** yn crynhoi'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn. Nodir ystodygwaith archwilio perfformiad y bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r rheoleiddwyr perthnasol yn ei gyflawni yn fanylach mewn Cynllun Gwaith ac Amserlen a gaiff ei adolygu bob chwarter.
4. Mae **Atodiadau 2 a 3** yn nodi rolau a chyfrifoldebau staff perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ynghyd â manylion cyswllt.
5. Mae **Atodiad 4** yn nodi'r ffioedd ar gyfer gwaith archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol.
6. Pan fydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi mater sy'n ddigon pwysig i ystyried cynnal arolygiad arbennig fel ymateb priodol iddo, bydd yn codi ffi ychwanegol am gynnal arolygiad o'r fath.

Yr Asesiad Gwella

7. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant er mwyn pennu a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Rhan 1 y Mesur. Mae hyn yn cynnwys:
 - adolygu'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith i sicrhau gwelliant parhaus;
 - astudiaethau gwella o feysydd a allai lesteirio ymdrechion i wella neu drawsnewid neu esgor ar aneffeithlonrwydd;
 - darnau penodol o waith sy'n ymwneud ag amcanion gwella a threfniadau'r Cyngor; ac
 - archwiliadau o gynlluniau gwella cyhoeddedig y Cyngor a'i hunanasesiad o berfformiad.
- a) **Trefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus**
8. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad llawn o drefniadau'r Cyngor unwaith bob pedair blynedd, oni bai fod ganddo bryderon sylweddol sy'n awgrymu y dylai adolygu'r trefniadau hynny'n amlachna hynny. Eleni, ni fyddwn yn cynnal asesiad llawn yn y Cyngor, ond yn lle hynny, byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynigion ar gyfer gwella a nodwyd yn ein hasesiadau blaenorol. Ym mis Ionawr 2012, fe wnaethom gynnig y dylai'r Cyngor:
 - ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd; a

- phennu sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* erbyn mis Medi 2012, gan gynnwys:
 - cadarnhau adnoddau staff ac ariannol a fydd ar gael i gefnogi'r cynllun; a
 - threfniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd yn gyfnodol.
9. Byddwn hefyd yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn astudiaethau eraill a gwblhawyd fel rhan o asesiad gwella 2011-12.

b) Astudiaethau gwella

10. Yn ei lythyr ym mis Mawrth 2012, amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol ei gynigion ar gyfer astudiaethau gwella eleni. Y rhain yw:
- themâu allweddol sy'n codi o'n harchwiliad o asesiadau awdurdodau o'u perfformiad;
 - effeithiolrwydd gwaith craffu; ac
 - adolygiadau awdurdodau o drefniadau llywodraethu a pharatoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol.

c) Gwaith penodol

11. Nodir ein cynigion ar gyfer gwaith lleol eleni yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1

Enw'r astudiaeth	Rhesymeg
Cydweithio	Mae cydweithio effeithiol yn parhau i fod yn opsiwn pwysig i'r Cyngor wrth ddarparu gwell gwasanaethau.
Digartrefedd	Mae digartrefedd yn faes lle mae'r Cyngor yn wynebu sawl her newydd yn cynnwys diwygiadau lles arfaethedig Llywodraeth y DU.
Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithlon sy'n cael eu rheoli'n dda	Un o flaenoriaethau'r Cyngor yn ei <i>Dogfen Bontio</i> ar gyfer 2012 yw sicrhau bod yr holl wasanaethau yn Sir Ddinbych yn effeithlon ac yn cael eu rheoli'n dda mewn meysydd fel rheoli absenoldeb, arfarnu staff a lleihau teithio at ddibenion busnes.

d) **Archwiliadau o'r 'Cynllun Gwella' a'r 'Asesiad o Berfformiad'**

12. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau er mwyn asesu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella a chyhoeddi gwybodaeth am wella, ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.
13. Mae dyletswydd ar awdurdodau gwella i gyhoeddi Cynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r cynllun hwn ac i ddatgan a yw o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau statudol.
14. Rhaid i awdurdodau gwella gynnal 'Asesiad o Berfformiad' hefyd a chyhoeddi gwybodaeth am welliant erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad o'r asesiad a'r cyhoeddiad, a datgan a yw o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau statudol.

Cyflwyno adroddiadau

15. Byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor i gyflwyno adroddiad ffurfiol ar ein hadolygiad dilynol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwelliant parhaus. Yn y llythyr hwnnw, byddwn hefyd yn cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau'r archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor, ac yn cyflwyno sylwadau ar gadernid y cynlluniau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith.
16. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar bob Astudiaeth Wella. Cyhoeddir crynodeb cenedlaethol o bob Astudiaeth Wella hefyd.
17. Byddwn yn ysgrifennu at y Cyngor yn dilyn ein harchwiliad o hunanasesiad y Cyngor i gyflwyno adroddiad ffurfiol ar ganfyddiadau'r archwiliad, gan gynnwys sylwebaeth ar gadernid a dilysrwydd asesiad y Cyngor ei hun.
18. Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol sy'n crynhoi'r holl waith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol ac yn adrodd ar y gwaith hwnnw. Ein nod yw cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor erbyn mis Mawrth 2013.

Astudiaethau llywodraeth leol

19. Mae'n ddyletswydd hefyd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal astudiaethau o awdurdodau lleol o dan adrannau 41 a 42 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn ystod 2012-13, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal astudiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEETS).

Gwaith arall a ddefnyddir gan yr Archwilydd Cyffredinol i lywio ei waith archwilio perfformiad yn y Cyngor

- 20.** Gall yr Archwilydd Cyffredinol ddefnyddio gwaith arall wrth lunio ei gasgliadau yn ymwneud â'r Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:
- gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig;
 - gwaith rheoleiddwyr perthnasol, yn arbennig Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg;
 - rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio perfformiad lleol yng nghyrrff unigol y GIG;
 - rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian sy'n ystyried darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Llywodraeth Cymru, y cyrrff a noddur ganddi a'i chyrrff cysylltiedig wrth ddefnyddio eu hadnoddau i gyflawni eu swyddogaethau; a
 - gwaith y gallai'r Cyngor fod wedi'i gomisiynu.

Gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig

- 21.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio a chyflwyno adroddiadau ar gyfrifon awdurdodau lleol. Mae adroddiadau archwilio yn cynnwys barn ar y canlynol:
- a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r corff, neu'n ei chyflwyno'n deg;
 - a yw'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n gywir yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau a safonau cyfrifyddu cymwys; a
 - rheoleidd-dra'r trafodion, mewn cyrrff lle bo hyn yn ofynnol.
- 22.** Bydd archwilwyr hefyd yn astudio datganiad llywodraethu neu ddatganiad am reolaethfewnol ac yn cyflwyno adroddiad os nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion perthnasol neu lle y gall fod yn gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall y maent yn ymwybodol ohoni.
- 23.** Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilwyr Penodedig fodloni eu hunain bod corff a archwilir wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Bydd archwilwyr yn defnyddio meini prawf a nodir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac yn dibynnu ar yr Aseiad Gwella a gwaith arall a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol neu reoleiddwyr perthnasol.

Gwaith rheoleiddwyr perthnasol

24. Mae Estyn ac AGGCC hefyd yn cyflawni gwaith yn ymwneud â chynghorau yng Nghymru. Disgrifir natur y gwaith hwnnw a'r swyddogaethau deddfwriaethol sy'n eiategu yn **Atodiad 2**. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi gweithgarwch rheoleiddio a gynlluniwyd gan Estyn ac AGGCC. Caiff y gwaith hwn a gwaith arall a all godi ei gynnwys pan ddiweddarir y Rhaglen Waith ac Amserlen.

Arddangosyn 2: Gweithgarwch rheoleiddio arall a gynlluniwyd

Estyn	
Mae Cynghorau'n derbyn tua thri mis o rybudd o arolygiadau Estyn. Bydd y rhaglen hon yn cael ei diweddarau pan fydd Estyn yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw waith arolygu.	I'w gadarnhau
AGGCC	
Mae AGGCC yn newid ei strwythur a bydd yn cynnal nifer cymharol isel o arolygiadau, trwy ymweld â safleoedd yn bennaf, nes bydd y strwythur newydd ar waith.	Ebrill i Fedi 2012

25. Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn monitro cynnydd y Cyngorwrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda chynghorau i'w helpu i ddatblygu eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol sy'n amlinellu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o waith archwilio perfformiad lleol yng nghyfrff unigol y GIG

26. Fel archwilydd allanol y GIG yng Nghymru, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol raglen archwilio ariannol ac archwilio perfformiad yn ymwneud â chyrrff iechyd lleol unigol hefyd. Wrth i gydweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ddod yn fwy cyffredin, bydd y gwaith hwn yn dod yn fwyfwy perthnasol i'w waith Asesu Gwelliant.

Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian

27. Fel arfer cyflwynir adroddiadau sy'n deillio o raglen astudiaethau gwerth am arian yr Archwilydd Cyffredinol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried gan ei Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Gan fod llawer o'r astudiaethau hyn yn gorgyffwrdd â gwahanolrannau o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn aml byddant yn berthnasol i'w waith mewn llywodraeth leol. Er y gall newid yn ystod y flwyddyn, mae **Atodiad 5** yn rhestru'r astudiaethau gwerth am arian y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo iddynt ar hyn o bryd. Fel y nodir ym mharagraff 19, gall astudiaethau llywodraeth leol yr Archwilydd Cyffredinol ffurfio rhan o astudiaethau gwerth am arian ehangach.

Gwaith y gallai'r Cyngor fod wedi'i gomisiynu

- 28.** O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Cyngor gomisiynu gwaith gan yr Archwilydd Cyffredinol. Dylai'r Cyngor drafodhyn yn gyntaf gyda Swyddfa Archwilio Cymru.

Atodiad 1

Gwaith archwilio perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru a gynlluniwyd ar gyfer 2012-13

Astudiaeth Llywodraeth Leol Cymru-gyfan 2012-13– Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETS)

Archwiliad o'r Cynllun Gwella

Cyhoeddi'r archwiliad o'r asesiad o berfformiad, gan gynnwys profi a dilysu gwaith asesu perfformiad yr awdurdod

Archwiliad o Ddangosyddion Perfformiad

Asesiad risg o fudd-dal tai a budd-dal treth gyngor

Astudiaeth Wella – themâu allweddol o'r asesiadau o berfformiad

Astudiaeth Wella – effeithiolrwydd gwaith craffu

Astudiaeth Wella – adolygiadau awdurdodau o drefniadau llywodraethu a'r broses o baratoi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol

Gwirio cynnydd meysydd ar gyfer gwella a nodwyd mewn asesiadau blaenorol

Cydweithio

Adolygiad o drefniadau digartrefedd

Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau effeithlon sydd wedi'u rheoli'n dda

Ymgysylltu'n barhaus â'r Cyngor

** Mae rhaglen waith a ffi pob blwyddyn yn cwmpasu un cylch o waith Asesu Gwelliant. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd y gwaith hwn yn cyd-fynd yn union â chyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn gorffen ar 31 Mawrth. Felly mae'n bosibl y bydd y gwaith a wneir i gyflawni ein rhaglen waith flynyddol yn gorgyffwrdd blynyddoedd ariannol.*

Atodiad 2

Rolau a chyfrifoldebau

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff. Nodir prif swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, Deddf Llywodraeth Leol 1999, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Cyfarwyddwr y Grŵp Perfformiad

Mae Cyfarwyddwr y Grŵp Perfformiad yn uniongyrchol atebol i'r Archwilydd Cyffredinol am oruchwyllo'r broses o gyflawni'r holl waith archwilio perfformiad yn y Cyngor.

Rheolwr rhanbarth llywodraeth leol

Mae'r Rheolwr yn atebol i Gyfarwyddwr y Grŵp ac ef yw'r prif gyswllt ar gyfer y gwaith Asesu Gwelliant ar lefel uwch swyddog a lefel wleidyddol mewn cyrff llywodraeth leol. Bydd y Rheolwr yn cyflwyno adroddiadau ar yr Asesiad Gwella i'r Cyngor.

Arweinydd Archwilio Perfformiad

Mae'r Arweinydd Archwilio Perfformiad yn cynllunio ac yn cydgyssylltu mewnbwn i'r Asesiad Gwella ymhob cyngor.

Archwilwyr Penodedig

Mae'n rhaid i'r Archwilydd a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau sy'n cyflawni'r dyletswyddau statudol a osodwyd arno gan Ddeddfau 1999 a 2004. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi Cod sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau.

Rheoleiddwyr perthnasol

Mae prif swyddogaethau AGGCC wedi'u cynnwys ym Mhennod 6 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

Mae Estyn yn cynnal arolygiadau o Wasanaethau Addysg Awdurdodau Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc o dan Adran 38 o Ddeddf Addysg 1997. Mae'r arolygiadau hyn yn ffurfio rhan ogyloch tair blynedd a ddechreuodd yn 2010-11. Bydd Estyn hefyd yn cynnal arolygiadau dilynol yn ôl yr angen.

Mae gan Estyn bwerau hefyd o dan Ddeddf Addysg 2005 ac Adran 86 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Cynhelir arolygiadau eraill Estyn a all gynnwys darpariaeth cynghorau o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a chytundeb rhwng Estyn a'r Ganolfan Byd Gwaith. Sefydlwyd y cyfnod hysbysu ar gyfer holl arolygiadau Estyn drwy gytundeb rhwng Estyn adarparwr y gwasanaeth ym mhob sector. Gan fod y cyfnod hwn yn aml yn weddol fyr (trimis fel arfer), nid yw'n bosibl cyhoeddi manylion unrhyw arolygiadau nas hysbyswyd ydarparwr ohonynt ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn yr achosion hyn, cyn gynted ag yrhysbysir y darparwr o'r arolygiad, rhoddir y manylion i Swyddfa Archwilio Cymru, a fydd yndiweddaru'r Cynllun Gwaith ac Amserlen.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Prif swyddogaeth y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso'r defnyddo'r iaith Gymraeg.

Atodiad 3

Tîm archwilio perfformiad yr Archwilydd Cyffredinol

Enw	Rôl	Ffôn	E-bost
Alan Morris	Cyfarwyddwr Grŵp	07818 427472	Alan.Morris@wao.gov.uk
Huw Lloyd Jones	Rheolwr (Rhanbarth Gogledd Cymru)	01248 681980 07813 822017	Huw.lloyd.jones@wao.gov.uk
Gwilym Bury	Arweinydd Archwilio Perfformiad	07813 564432	Gwilym.Bury@wao.gov.uk

Atodiad 4

Ffioedd

Y ffi arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013 yw £120,880 (ynghyd â TAW) ac fe'i codir mewn rhandaliadau cyfwerth rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013. Nodir ein ffi isod.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Defnyddir rhan o'r grant hwn i roi cymhorthdal tuag at ffioedd ar gyfer gwaith Asesu Gwelliant. Eleni mae'r cymhorthdal wedi'i ddyrannu'n gyfartal rhwng y 22 awdurdod unedol.

Y ffi

	Ffi o fis Ebrill 2012 hyd at fis Mawrth 2013*
Cyfanswm y ffi ar gyfer gwaith Asesu Gwelliant ac archwiliadau	£155,880
Llai cymhorthdal Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella	£35,000
Ffi a godir ar yr awdurdod	£120,880

**Dim ond am archwilio perfformiad y codir y ffi ac nid yw'n cwmpasu gwaith archwilio ariannol yr Archwilydd Penodedig.*

Atodiad 5

Rhaglen yr Archwilydd Cyffredinol o astudiaethau gwerth am arian

Gwaith sy'n mynd rhagddo

Cronfeydd strwythurol yr UE 2007-13

Llywio gofal iechyd

Gwireddu buddiannau contract meddygon ymgynghorol y GIG

Gwerthu Gwesty River Lodge (gynt), Llangollen

Gofal iechyd ledled y DU (mewn cydweithrediad â'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Audit Scotland a Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon)

Menter Twyll Genedlaethol 2010-11

Cyberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

Gofal iechyd parhaus

Cynllunio at argyfwng – argyfyngau sifil posibl

Addysg plant sy'n derbyn gofal

Darlun o wasanaethau cyhoeddus – cyllid iechyd

Strategaeth leoli Llywodraeth Cymru

Caffael gwasanaethau ymgynghori yn y sector cyhoeddus

Gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod – gwaith dilynol

Comisiwn Coedwigaeth Cymru – gwaith dilynol

Astudiaethau a gynlluniwyd nad ydynt wedi dechrau eto

Trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Rheoli meddyginiaethau

Rheoli a chynllunio ariannol ym maes addysg uwch

Athrawon cyflenwi (ar y cyd ag Estyn o bosibl)

Cynllunio'r gweithlu yn y sector cyhoeddus/rheoli'r gwaith o leihau'r gweithlu

Grantiau i ffermwyr (gan ganolbwyntio o bosibl ar gynllun amaeth-amgylchedd Glastir)

Noder: Yn ogystal â'r rhestr hon, mae'n debygol y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn penderfynu cyhoeddi adroddiad(au) cryno cenedlaethol yn dilyn gwaith archwilio perfformiad lleol diweddar mewn perthynas â'r GIG ar ofal heb ei drefnu a'r gwaith o reoli cyflyrau cronig.



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Adroddiad: Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 11 Gorffennaf 2012

Prif Swyddog: Alan Smith, Pennaeth Datblygiad a Pherfformiad Busnes

Ysgrifennydd yr Adroddiad: Tony Ward, Rheolwr Tîm Datblygiad Corfforaethol

Teitl: Swyddfa Archwilio Cymru: Adborth Adolygu Technoleg

1. Beth mae'r adroddiad yn trafod?

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno adborth o Swyddfa Archwilio Cymru (SAC/WAO) am adolygiad technoleg yng Nghyngor Sir Dinbych.

2. Beth yw pwrpas llunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn ag Adborth Adolygu Technoleg (gweler Atodiad A i'r adroddiad hwn).

3. Beth oedd yr Argymhellion?

Argymhellwyd bod angen i'r Pwyllgor nodi casgliadau'r adolygiad a thrafod y trefniadau er mwyn ymateb i unrhyw faterion pwysig.

4. Manylion yr Adroddiad.

Bwriad yr adolygiad yw ateb y cwestiwn: "A yw trefniadau'r cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi datblygiad parhaus?" Daeth y SAC/WAO i'r casgliad bod: "Cynlluniau'r Cyngor ar gyfer datblygiadau, gan ddefnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi datblygiad pan fyddai'r Cyngor yn cryfhau ei rheolaeth TGCh ac yn cyflawni Rhan 1 o'r strategaeth yn llwyddiannus". Mae manylion pellach o gasgliadau a chynigion ar gyfer y datblygiad i'w gweld yn yr adroddiad amgaaedig.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu ar y blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer gwybodaeth, yn hytrach nag ar gyfer penderfyniadau.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Y prif gasgliadau o'r adolygiad oedd bod gallu'r cyngor u gefnogi datblygiad trwy dechnoleg yn ddibynnol ar gyflawni Rhan 1 o'r strategaeth TGCh yn llwyddiannus. Nid oes i'r casgliad hwn oblygiadau fel Rhan 1 o'r Strategaeth TGCh, ac mae adroddiad glo yn cael ei drafftio ar hyn o bryd.

7. Pa ymgynghoriadau a wnaed?

Mae drafftiau o'r Adolygiad Adborth Technoleg wedi trafod gyda'r swyddogion priodol, gan gynnwys Rheolwr Trawsnewidiad Busnes a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol cyn creu'r adroddiad terfynol.

8. Pa risgiau sy'n bodoli, ac oes modd eu lleihau?

Mae'r gofrestr Gorfforaethol yn cynnwys "y risg nad yw strategaeth TGCh yn caniatáu datblygiad a chefnogi newid". Mae'r gweithredoedd sy'n gallu lleihau'r lefel o risg sydd ar ôl yw (ar yr adeg olaf yn yr adolygiad):

- Trosglwyddo Rhan I o strategaeth TGCh (bellach wedi'i orffen); a
- Cytuno (ac yna trosglwyddo) Rhan II o'r strategaeth TGCh.

9. Y gallu i wneud penderfyniadau

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer gwybodaeth, yn hytrach nag ar gyfer penderfyniadau.



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adborth o'r Arolwg Technoleg Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: Asesiad Blynyddol o Welliant 2012

Cyhoeddwyd: Mehefin 2012

Cyfeirnod y ddogfen: 171A2012

Statws yr adroddiad

Andrew Doughton a gyflawnodd y gwaith hwn.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd a'i staff) a, lle bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n berthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Cynnwys

Adroddiad cryno

4

Cwestiynau lefel uchel a chanfyddiadau

5

Adroddiad cryno

1. Mae defnyddio technoleg yn effeithiol yn hanfodol ar gyfer trawsnewid y gwaith o gyflawni gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau i ddinasyddion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd. Gall technoleg gefnogi ffyrdd gwahanol o weithio, cyflawni gwasanaethau ac ymgysylltu â dinasyddion, gan alluogi cynghorau i gyflawni mwy am lai. Mae'r modd y caiff technoleg ei darparu a'i rheoli yn effeithio'n uniongyrchol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd gwaith ar draws y cyngor, ac mae'n effeithio ar holl weithwyr y cyngor bron. Gall rheolaeth wael o TGCh arwain at ddefnyddio systemau amhriodol, gall olygu nad yw'r system ar gael a gall greu rhwystredigaeth drwy'r sefydliad cyfan.
2. Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â sicrhau bod technoleg yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ategu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau ac i sicrhau arbedion effeithlonrwydd, ac o ganlyniad, mae adolygiadau o dechnoleg yn cael eu cynnal ym mhob cyngor yng Nghymru.
3. Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiwn: **'A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o hyrwyddo gwelliant parhaus?'** Daeth ein hadolygiad o Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) i'r casgliad:
 - Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o hyrwyddo gwelliant parhaus unwaith y bydd y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu TGCh ac yn cwblhau Cam 1 ei Strategaeth TGCh yn llwyddiannus:
 - nid yw trefniadau llywodraethu TGCh yn cyd-fynd yn llwyr nac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwella a thrawsnewid y Cyngor ac mae yna wendidau sydd angen mynd i'r afael â nhw yn y trefniadau darparu adnoddau technoleg; ac
 - mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu sianeli mynediad i gwsmeriaid sy'n dechrau gweithio'n dda, ond nid yn manteisio'n llawn ar botensial technoleg i drawsnewid y gwasanaeth a sicrhau effeithlonrwydd ac mae angen iddo ddatblygu trefniadau i sicrhau elw ar ei fuddsoddiadau ym maes technoleg.
4. Amlinellir ein canfyddiadau, ein casgliadau a'n cynigion ar gyfer gwella yn y tabl isod.

Cwestiynau lefel uchel a chanfyddiadau

Cwestiwn lefel uchel	A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o hyrwyddo gwelliant parhaus?
Ateb lefel uchel: Daethom i'r casgliad:	Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o hyrwyddo gwelliant parhaus unwaith y bydd y Cyngor yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu TGCh ymhellach ac yn cwblhau Cam 1 ei Strategaeth TGCh yn llwyddiannus.
Asesiad o'r trefniadau presennol	Nid yw trefniadau llywodraethu TGCh yn cyd-fynd yn llwyr nac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau gwella a thrawsnewid y Cyngor ac mae yna wendidau sydd angen mynd i'r afael â nhw yn y trefniadau darparu adnoddau technoleg.
Asesiad o berfformiad	Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu sianeli mynediad at gwsmeriaid sy'n dechrau perfformio'n dda, ond nid yw'n manteisio'n llawn ar botensial technoleg i drawsnewid y gwasanaeth a sicrhau effeithlonrwydd ac mae angen iddo ddatblygu trefniadau i sicrhau elw ar ei fuddsoddiadau technoleg.
Cynigion ar gyfer gwella	<ol style="list-style-type: none">1. Sicrhau bod y Strategaeth TGCh yn gynhwysfawr ac yn cynnwys anghenion systemau a thechnoleg gwasanaethau ehangach. Gellid gwneud hyn, er enghraifft, trwy ddatblygu cynllun gweithredu strategaeth lefel gwasanaeth a chorfforaethol fel rhan o gamau 2 a 3 y strategaeth.2. Dylai'r Cyngor sicrhau bod cynlluniau ar gyfer creu arbedion trwy ddefnyddio mwy o dechnoleg yn cyd-fynd â gofynion ariannu a chynlluniau gweithlu TGCh. Dylai'r broses o ddatblygu rôl yr ymgynghorydd busnes gael ei hariannu'n ddigonol er mwyn gallu cysoni cynlluniau a gofynion ariannu cynaliadwy.3. Dylai'r Cyngor sicrhau hefyd fod cyllid ar gyfer seilwaith yn gynaliadwy ac yn gallu diwallu anghenion y dyfodol.4. Lleihau cyfanswm cost perchenogaeth drwy adolygu trefniadau ariannu technoleg bwrdd gwaith TGCh gan eu trin fel nwydd corfforaethol, a ariennir yn ganolog ac sy'n gysylltiedig â rhaglen adnewyddu a chynlluniau ariannol tymor canolog.5. Sicrhau bod prosiectau technoleg holl wasanaethau'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n effeithiol, i weld a gyflawnwyd gwelliant busnes a gynlluniwyd neu welliant busnes gwirioneddol ac elw ar fuddsoddiad.6. Dylai'r Cyngor sicrhau bod anghenion systemau gwybodaeth neu dechnoleg newydd cynlluniau a phrosiectau cydweithredol yn cael eu mynegi'n ffurfiol i'r Gwasanaeth TGCh, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu blaenoriaethu ei raglen waith yn effeithiol.

Cwestiwn lefel uchel	A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o hyrwyddo gwelliant parhaus?
Cynigion ar gyfer gwella	7. Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth sylfaenol am y defnydd o sianeli, ond mae angen iddo gasglu gwybodaeth benodol am gost trafodion ar draws y gwahanol sianeli mynediad i ganfod gwybodaeth sylfaenol am berfformiad, yna monitro defnydd a chost yn rheolaidd, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio penderfyniadau a blaenoriaethau.
Canfyddiadau	Oherwydd:
A yw <i>cynlluniau</i> technoleg y Cyngor yn debygol o hyrwyddo ei flaenoriaethau gwella?	<p>Yn rhannol</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Strategaeth TGCh ar gyfer 2012-14. Pennaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid sy'n gyfrifol am lunio a gweithredu'r Strategaeth TGCh, ond mae wedi mabwysiadu dull o ddatblygu strategaeth sy'n cynnwys y rheolwyr corfforaethol a gwasanaethau. Yr Uwch Dîm Arwain sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r strategaeth a sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag amcanion y Cyngor a'r arian sydd ar gael. Mae'r strategaeth wedi'i rhannu'n dri cham; mae'r cam cyntaf (cam sylfaen) wedi'i ariannu, ond bydd angen cymeradwyo arian ar gyfer y camau dilynol ar ôl symud ymlaen gyda cham 1. Bydd y gwaith o weithredu'r Strategaeth yn cael ei oruchwyllo a'i fonitro trwy brosesau llywodraethu/craffu ffurfiol, rheoli perfformiad gwasanaeth, a thrwy'r bwrdd rhaglen trawsnewid busnes. Caiff y strategaeth ei gweithredu mewn tri cham (creu sylfaen TGCh sy'n addas i'r diben, gweithredu'r rhaglen waith a'r strwythurau llywodraethu prosiect gofynnol a darparu Gwasanaethau TGCh ar y cyd). Mae'r strategaeth ddrafft yn cwmpasu datblygu'r seilwaith a'r gofynion 'galluogi' corfforaethol, er enghraifft, gweithio symudol, rheoli gwybodaeth yn ogystal â'r agenda gydweithio. Nid yw'r strategaeth yn nodi gofynion technoleg penodol mewn gwasanaethau, er bod y gwasanaeth TGCh yn cydnabod bod rôl yr ymgynghorydd busnes yn gynyddol bwysig ar gyfer hwyluso gwelliannau technolegol mewn gwasanaethau. Mae yna broses ffurfiol ar gyfer nodi prosiectau TGCh: <ul style="list-style-type: none"> - Trwy'r rhaglen trawsnewid busnes; a - Blaenoriaethau technoleg seiliedig ar wasanaeth trwy rôl esblygol y partner busnes lle mae ymgynghorydd gwasanaeth TGCh yn gweithio gyda gwasanaethau i ddeall eu gofynion busnes cyfredol a rhai'r dyfodol. Mae hyn yn helpu i ddiffinio a blaenoriaethu prosiectau TGCh.

Canfyddiadau	Ydy neu Nac ydy	Oherwydd:
A yw <i>cynlluniau</i> technoleg y Cyngor yn debygol o gefnogi ei flaenoriaethau gwella?	Yn rhannol	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi cyflwyno prosesau mandad i'r prosiectau'n ddiweddar, gan fonitro pwysoliad a blaenoriaeth bob chwarter. • Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydweithio er nad yw ffurf a diben y cydweithio hwnnw yn glir ar hyn o bryd mewn nifer o wasanaethau. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu amryw o weithgareddau cydweithio sy'n ymwneud yn benodol â TGCh. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Cwsmeriaid wrthi'n trafod ar lefel ranbarthol a chenedlaethol am ddull cydweithredol o rannu seilwaith cyffredin ar lefel rhanbarth. • Mae'r trefniadau i gefnogi gweithrediad effeithiol y strategaeth TGCh yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> – fforwm Strategol TGCh sef y 'Grŵp sicrhau cynnydd drwy dechnoleg'; – Grŵp Gweithredol TGCh sy'n cydgysylltu gweithgarwch y Gwasanaeth TGCh o ddydd i ddydd a materion lefel gweithredol a chyfluoedd mewn gwasanaethau; a'r – Awdurdod Dylunio Technegol, sef grŵp gwasanaeth TGCh sy'n gyfrifol am ddiffinio a dogfennu safonau technegol. • Mae'r Cyngor yn derbyn y gall buddsoddi mewn TGCh/technoleg ei helpu i drawsnewid y gwasanaeth ac mae wedi neilltuo arian ar gyfer cam sylfaen y strategaeth. Mae ymrwymiad pellach i ariannu camau dilynol y strategaeth yn debygol o ddibynnu ar i ba raddau y bydd y Cyngor yn llwyddo i sicrhau arbedion gweladwy a'r tebygolrwydd o sicrhau manteision busnes ac elw ar fuddsoddiad. • Mae adnoddau staff TGCh wedi lleihau i'r llinell sylfaen ofynnol. Mae yna ddigon o staff i gefnogi gwaith gweithredol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae angen datblygu cynlluniau'r gweithlu TGCh i sicrhau bod digon o staff medrus ar gael i gefnogi nodau gwella busnes ar sail technoleg y Cyngor heb ddiraddio ansawdd darpariaeth gwasanaeth TGCh neu oedi'r gwaith o gyflawni prosiectau. Gallai prinder staff neu sgiliau technegol annigonol gyfyngu ar y graddau y gall technoleg sicrhau gwelliant a chydweithio effeithiol ar y cyflymder sy'n angenrheidiol.

Canfyddiadau	Ydy neu Nac ydy	Oherwydd:
<p>A yw trefniadau cyflawni'r Cyngor yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus?</p>	<p>Yn rhannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio technoleg i gyflawni'r gwaith o drawsnewid busnes a sicrhau ei arbedion ariannol, trwy wella mynediad i gwsmeriaid a gwella gwasanaethau ond mae ei ddull o ariannu datblygiadau technolegol yn cyfyngu ar faint o welliant y gall technoleg ei sicrhau'n effeithiol. Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn technoleg ar sail gwasanaeth yn hytrach nag ar sail gorfforaethol. Mae datblygiadau a mentrau TGCh yn cael eu trefnu yn ôl yr arian sydd ar gael ac o fewn cyllidebau gwasanaeth, nid y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio technoleg i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn defnyddio trefniadau ariannu cyfalaf blynyddol wedi'u clustnodi i sicrhau bod y seilwaith TGCh yn gynaliadwy, ac yn talu am waith cynnal a chadw rheolaidd o referniw TGCh. Mae hon yn gronfa flynyddol a glustnodir, er nad oes ganddi gysylltiad penodol â chynlluniau ariannol y tymor canol. Mae polisiau'r Cyngor yn gyfredol ac yn amlinellu'n glir sut y mae technoleg i'w threfnu a'i defnyddio. Mae'r Awdurdod Dylunio Technegol wedi gwneud gwaith da o ran ffurfioli safonau cyfredol. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio ag Allrwyd Ddiogel Cyswllt Llywodraeth (GCSX) y DU, rhwydwaith diogel ardal eang sy'n galluogi swyddogion mewn sefydliadau sector cyhoeddus lleol i ryngweithio a rhannu data'n breifat a diogel gydag adrannau'r llywodraeth ganolog. Caiff dyfeisiadau bwrdd gwaith a meddalwedd eu hariannu o gyllidebau gwasanaeth wedi'u datganoli, ac nid hon yw'r ffordd fwyaf effeithiol a chost effeithiol o reoli technoleg bwrdd gwaith. Argymhellir diwygio'r bwrdd gwaith ar ôl pedair blynedd. Mae technoleg bwrdd gwaith yn elfen hanfodol o unrhyw agwedd ar waith bron, ac os nad yw ar gael neu os yw'n perfformio'n wael mae hyn yn effeithio ar gynhyrchiant staff. Byddai trin y bwrdd gwaith fel nwydd corfforaethol a mabwysiadu hyd oes safonol yn gysylltiedig â chyfanswm cost perchenogaeth o'r bwrdd gwaith yn galluogi'r Cyngor i: <ul style="list-style-type: none"> – diffinio a rheoli rhaglenni adnewyddu strwythuredig; – cynllunio swmp-bryniadau, gan sicrhau arbedion maint; – sicrhau safon darpariaeth gyson ar draws y Cyngor; – lleihau gorbenion cymorth TGCh; a – dileu gorbenion paratoi, herio a chymradwyo achosion busnes.

Canfyddiadau	Ydy neu Nac ydy	Oherwydd:
A yw trefniadau cyflawni'r Cyngor yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus?	Yn rhannol	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Gwasanaeth TGCh yn gweithio ar sail fframwaith rheoli risg. Datblygwyd dull systematig o reoli risg fel bod yr adran yn gallu nodi, gwerthuso, rheoli a monitro risgiau a allai fygwth strategaethau neu dactegau'r adran. Mae yna ddull rheoli risg corfforaethol sy'n dilyn strwythur y gwasanaeth. Caiff risgiau technoleg mewn gwasanaethau eraill eu nodi drwy eu prosesau rheoli risg ac ar hyn o bryd nid yw'r rhain yn cysylltu nôl yn ffurfiol i Wasanaethau Cwsmeriaid. Caiff risgiau technoleg o wasanaethau eraill eu nodi gan TGCh trwy ddulliau mwy anffurfiol, er y gallai'r ffocws arfaethedig ar rôl y cyfrif busnes helpu i liniaru hyn. Mae gan y Gwasanaeth TGCh drefniadau rhaglen a rheoli rhaglen ar waith, yn seiliedig ar egwyddorion Prince 2 y gellir eu haddasu. Mae'r Cyngor yn rheoli'r gwaith o gaffael a chynnal a chadw asedau TGCh yn effeithiol. Mae unrhyw dechnoleg yn cael ei gaffael drwy'r Gwasanaeth TGCh canolog gan ddefnyddio fframwaith caffael y Cyngor. Mae'r adran TGCh yn defnyddio meddalwedd i asesu trwyddedau ei feddalwedd a pha mor gyfredol ydyw.
A yw'r Cyngor yn defnyddio technoleg fel <i>galluogwr</i> ar gyfer trawsnewid ac arbedion sylweddol o ran costau rhedeg?	Ydy	<ul style="list-style-type: none"> Nid oes gan y Cyngor hanes llwyddiannus o ddadansoddi a dangos manteision busnes ac elw ar fuddsoddiad a gyflawnwyd ar brosiectau technoleg gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar symud trafodion cwsmeriaid i ddulliau mwy fforddiadwy ac effeithiol (symud sianel) i wella prosesau busnes, defnyddio technoleg i ailfeddl yn sylweddol am y ffordd mae cwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid a lleihau costau gweithredu. Mae ganddo wasanaeth cyswilt â chwsmeriaid sy'n galluogi cwsmeriaid i gynnal trafodion a gwneud ymholiadau wyneb yn wyneb, dros y ffôn neu ar y we, ac mae'r gwasanaeth hwn yn seiliedig ar system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid. Mae gwefan y Cyngor yn cynnig ystod eang o gyfleusterau hunanwasanaeth ac yn integreiddio prosesau a systemau gwasanaeth ymhellach i'r ganolfan gyswilt gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cynhwysiant cymdeithasol fel mynediad i bobl anabl, a darpariaeth ddwyieithog sydd ar gael ar gyfer dyfeisiau symudol hefyd. Mae'r Cyngor hefyd yn dechrau manteisio ar botensial agweddau eraill ar dechnoleg fel EDRMS a System Gwybodaeth Ddaearyddol a Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid i drawsnewid gwasanaeth cefn swyddfa a sicrhau arbedion pellach.

Canfyddiadau	Ydy neu Nac ydy	Oherwydd:
A yw'r Cyngor yn defnyddio technoleg fel <i>galluogwr</i> ar gyfer trawsnewid ac arbedion sylweddol o ran costau rhedeg?	Ydy	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg storio canolog a rennir i symleiddio'r dyfeisiau storio mae'r Cyngor yn eu defnyddio ar gyfer cadw gwybodaeth a data, ac i wella cryfder y system yn y tymor hir. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio technoleg i gyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran y ffordd y caiff gweithwyr eu grymuso a'u galluogi i weithio, gartref, ar y safle, neu yng nghartrefi cwsmeriaid. Mae hyn yn digwydd eisoes mewn rhai meysydd gwasanaeth ac yn sicrhau gwelliannau. Mae'r Cyngor yn dechrau defnyddio technoleg i leihau costau argraffu ac i wella ansawdd trwy symleiddio prosesau argraffu. Nod cyfunol y gweithgareddau hyn yw newid diwylliant y Cyngor, gan leihau nifer yr argraffyddion yn sylweddol, a chreu arbedion. Nid yw'r Cyngor yn gweithredu dull corfforaethol o ryddhau arian trwy reoli ei gymwysiadau'n effeithiol ar hyn o bryd er bod bwriad i wneud hyn trwy gydweithio ehangach. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i TG gwyrdd, ac yn bwriadu lleihau gofynion ynni yn sylweddol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2011-12.
A yw'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwelliant a pherfformiad technoleg yn effeithiol?	Yn rhannol	<ul style="list-style-type: none"> Mae dangosyddion perfformiad allweddol SOCITM yn cael eu cyfrif a'u dychwelyd i SOCITM fel rhan o ymarfer meincnodi SOCITM Cymru. Cânt eu defnyddio i fonitro perfformiad gweithredol y Gwasanaeth TGCh trwy her perfformiad chwarterol gan Bennaeth y Gwasanaeth. Nid oes gan y Cyngor hanes llwyddiannus o fonitro effaith ac effeithlonrwydd prosiectau technoleg mewn gwasanaethau, sy'n ei gwneud hi'n anodd i werthuso'n llawn y gwelliannau perfformiad/effeithlonrwydd sy'n deillio o fuddsoddi mewn technoleg. Mae hyn yn gwella, fodd bynnag; mae rhagolygon o arbedion cyn gweithredu wedi'u nodi ar gyfer prosiect WorkSmart a phrosiect peilot EDRMS. Mae prosiect arbed ynni y Gwasanaeth TGCh yn dangos arbedion pendant. Mae'r Cyngor yn gwneud ymarferion er mwyn dysgu gwersi ar ôl cynnal prosiectau, fel y prosiect mewnwyd. Mae'r Cyngor yn dangos trefniadau gwell ar gyfer dysgu gan eraill ac wedi ymweld â safleoedd eraill i ddysgu o'u dulliau gweithio nhw. Mae'r adran TG hefyd yn cynnal gwerthusiadau ôl-brosiect.

Canfyddiadau	Ydy neu Nac ydy	Oherwydd:
<p>A yw'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwelliant a pherfformiad technoleg yn effeithiol?</p>	<p>Yn rhannol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Cyngor yn datblygu ffyrdd o fonitro a rheoli mynediad i sianeli; gwybodaeth llinell sylfaen gyfyngedig sydd ganddo ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor wedi dod â chyflenwyr i mewn ar nifer o adegau i arddangos pa dechnolegau gwahanol sydd ar gael a sut gallent wella darpariaeth ac effeithlonrwydd y gwasanaeth. Mae trefniadau llywodraethu TGCh ffurfiol y Cyngor fel a ganilyn: cynrychiolydd portffolio aelodau penodedig, sydd â dealltwriaeth dda o TGCh; y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol; a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad. Mae swyddogion yn atebol i'r Uwch Dîm Arwain, y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Grŵp Cynnydd drwy Technoleg. Caiff prosiectau technoleg sy'n gysylltiedig â'r rhaglen gwella ac effeithlonrwydd eu rheoli a'u monitro drwy'r Rhaglen Trawsnewid Busnes. Mae'r grŵp technoleg strategol corfforaethol – y Grŵp Cynnydd drwy Technoleg – yn darparu cysylltiadau rheoli â gwasanaethau eraill. Nid oes swyddogaeth lywodraethu gyffredinol ar gyfer defnyddio a manteisio ar dechnoleg sy'n cwmpasu holl anghenion technoleg y Cyngor. Nid oes dull corfforaethol ar gyfer monitro pa mor effeithiol yw defnydd y Cyngor o dechnoleg; mae hyn wedi'i ddatganoli i'r gwasanaeth craffu a llywodraethu cyffredinol ar gyfer gwasanaethau. Mae'r Gwasanaeth TGCh yn atebol i'r Uwch Dîm Arwain, y Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Grŵp Cynnydd drwy Dechnoleg.



WALES **AUDIT** OFFICE

SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk

Adroddiad: Pwyllgor Llywodraeth Gorfforaethol

Dyddiad y Cyfarfod: 11 Gorffennaf 2012

Prif Swyddog: Alan Smith, Pennaeth Datblygiad a Pherfformiad Busnes

Ysgrifennydd yr Adroddiad: Tony Ward, Swyddog Tîm Gwelliant Corfforaethol

Teitl: Adolygiad o Strategaeth Rheolaeth Risgiau: Adroddiad clo

1. Beth mae'r adroddiad yn trafod?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno adroddiad y project clo ar gyfer y project Adolygiad o Strategaeth Rheolaeth Risgiau.

2. Beth yw pwrpas llunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth yn ymwneud ag adolygiad y strategaeth rheoli risgiau a'r camau gweithredu ar gyfer y broses newydd o gyd-lunio strategaethau rheoli risgiau.

3. Beth oedd yr Argymhellion?

Talodd yr Aelodau sylw i adroddiad clo y project amgaeedig (Atodiad A). Bydd Rheolwr i Dîm Datblygu Corfforaethol yn bresennol er mwyn ymateb sylwadau Ac ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad.

Cyflawnodd y cyngor adolygiad o'r strategaethau rheolaeth risgiau o ganlyniad i bryderon am sut mae'r gweithredoedd wedi'u gosod o fewn y mudiad. Cyflwynodd yr adroddiad nifer o newidiadau gan gynnwys, dull a pholisi newydd ar gyfer strategaeth rheolaeth risg o'r gwasanaethau Archwiliad Mewnol i'r Tîm Datblygu Corfforaethol. Ar ôl cyflawni'r newidiadau hyn, gwelwyd ar y buddiannau canlynol (manylion ar dudalen 5 o'r Adroddiad clo Adolygu Risgiau):

- System Rheolaeth Risg mwy modern, cyfrannol ac effeithiol a fydd yn hawdd i'w ddeall a gyda phwrpas clir.
- Templed clir sydd wedi llwyddo i leihau risgiau (gweler atodiad III) i bedair rhan o bump (tudalennau 401 i 80), gan wneud y cofrestrau yn hawdd eu dilyn, ac yn lleihau'r angen i argraffu ar draws yr awdurdodau.
- Lleihad sylweddol yn nifer y trapiau amcanion rhwng 172 i 30 (gweler atodiad III). Dilëwyd y 35 o ddyblygon dianghenraid o'r cofrestrau.
- Ymwybyddiaeth ragweithiol a pharhaus ar draws pob rhan o'r cyngor, er mwyn lleihau'r posibilid o weithgarwch annisgwylidig neu gostau ariannol a'u heffaith ar enw da'r cyngor. Yn ogystal â chadw a datblygu hyder cwsmeriaid yn ein gallu i drosglwyddo ein hymrwymiaidau.

- Atebolrwydd dibynadwy ac adrodd dulliau yn eu pryd.
- Mae gwasanaethau yn cael eu hannog i gyflwyno gwasanaeth llawn yn eu cofrestrau. Bydd hyn yn caniatáu mwy o ffocws, llai o ddyblygiadau a llai o faterion yn cael eu hadrodd.
- Bydd tîm dibynadwy o Swyddogion Datblygu Corfforaethol yn cyd-lynu cysondeb y risgiau o fewn y cyngor.
- Gall ffynonellau ac amser yr aelod a swyddog gael eu defnyddio yn fwy effeithiol.
- Mae'r berthynas rhwng y Gofrestr Risg Corfforaethol a gwasanaeth y gofrestr risg wedi cael ei diffinio yn well. Mae'n cyfuno yn gliriach y cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig gyda'r risgiau â'r Cyfarwyddwr a phroffiliau'r Cabinet.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio system debyg, sy'n gwneud cynllunio yn haws mewn sefyllfaoedd sy'n cynnwys gwasanaethau cyfunol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu ar flaenoriaethau'r Gorfforaeth?

Mae rheolaeth risg effeithiol yn orfodol er mwyn adnabod a rheoli'r digwyddiadau posib, a fyddai yn achosi effeithiau niweidiol ar ein gallu i gyrraedd amcanion, gan gynnwys y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae cost yr adolygiad i reolaeth risg, yn ogystal â'r gweithredoedd wedi cael eu hystyried gan y gwasanaeth Datblygiad a Pherfformiad Busnes. Mae'r Tîm Datblygu Corfforaethol (o fewn y gwasanaeth Datblygiad a Pherfformiad Busnes) yn gyfrifol am gyd-lynu'r strategaeth rheoli risg gan sicrhau bod y cynllun newydd yn parhau i gael eu dilyn gan y Gwasanaeth a'r Gorfforaeth cofrestru risgiau.

7. Pa ymgynghoriadau a wnaed?

Nid oes ymgynghori wedi digwydd er mwyn datblygu'r adroddiad hwn na chwaith yr Adroddiad clo Adolygu Risgiau (gweler yn amgaeedig). Fe'i cynhyrchwyd gan y Tîm datblygu Corfforaethol ar sail dadansoddiad o reolaeth risgiau (e.e. cofrestrau risg).

8. Pa risgiau sy'n bodoli, ac oes modd eu lleihau?

Mae Atodiad I o'r Adroddiad clo Adolygu Risgiau yn grynodedb o'r risgiau presennol a'r gweithredoedd llwyddiannus o fewn y broses newydd o reoli risgiau. Mae'r rhain yn cynnwys ysgwyddo'r gweithredoedd i leihau'r risgiau hynny.

9. Y gallu i wneud penderfyniadau

Dyma bapur ar gyfer gwybodaeth, yn hytrach nag ar gyfer penderfyniadau.



PROJECT CLOSURE

Project / activity name:	Review of Strategic Risk Management
Programme:	Business Transformation Programme
Workstream:	Business Tools and Processes

Head of Service:	Alan Smith	Lead member:	Paul Marfleet
Service area:	Business Planning & Performance	LM Portfolio:	Council Modernisation
Form completed by:	Iolo McGregor	Date:	02/05/12

Date of project handover / completion:	09 November 2011
---	------------------

PROJECT CLOSURE REPORT GOALS

1. To review and validate the success of the project at the completion / handover stage.
2. Confirm outstanding issues, risks, and recommendations.
3. Outline tasks and activities required to close the project
4. Identify project highlights and best practices for the future.
5. Handover from the Project Board to the relevant service area.

BACKGROUND INFORMATION

Risk Management is an important tool for the council. Within our business there are risks that are inherent to the work that we do, and we have a duty to manage these in a balanced, structured and cost effective way. The identification, assessment, management and reporting of risk information must be timely, accurate, relevant and give adequate coverage of the key risks in order to support management decision making, and to ensure that we meet our desired outcomes at a corporate, service and project level. If we fail to identify, assess and manage our risks it may result in considerable unbudgeted expenditure, damage to our reputation, and confidence in the community.

The system the council previously used to manage strategic risk was not properly embedded in the organisation. The process of Service Performance Challenges highlighted that services were not using the risk management system consistently or proactively. There was also confusion between risks and issues. Strategic risk management had been part of the Audit Function within the council and the disproportionate responsibility for monitoring service risk fell on the Risk and Audit Manager. Feedback from the Senior Leadership Team was that the system was overly complicated and not easy to use.

The management of risk is an important part of performance management and the council needs to be sure that it is undertaken effectively at both the operational and

strategic level. This area of work formed part of the work programme of the Business Transformation Board, and was a key part of Improving the way the council works. The project focussed on:

- A review of the current system.
- Engagement with managers and services to improve the current arrangements.
- Ensuring that the new system is embedded in the organisation.

Achieving cultural change was a key part of this project, and the review focussed on that. Because of this, external support from Richard Baker, Director of Governance & Risk Management for Caerus Consulting was required to help facilitate change and bring in an element of challenge to the review. Richard Baker had previously conducted a similar review for Conwy County Borough Council. Training was provided for the Corporate Executive Team, the Senior Leadership Team, and the Middle Management; as well as the Corporate Improvement Team that would be responsible for the integration and coordination of effective risk management with the council's business planning processes going forward.

The purpose of this project was therefore to implement the recommendations of the review, including the practical arrangements required to make the transition between the old and new systems. On November 9, 2011 a report that accompanied a new Risk Management Guidance and Policy was submitted for the consideration of the Corporate Governance Committee, which resolved that:

- a) *it approves the content of the accompanying Risk Management Guidance document and Policy Statement;*
- b) *it agrees its role and responsibilities as outlined in the Risk Management Guidance document under section 2.4 and 4.1; and*
- c) *agrees that reference to staff training issues be included in Paragraph 2.5 of the Risk Management Guidance document.*

Assurance as to the effectiveness of the internal control procedures and mechanisms in place to mitigate risks across the council will continue to fall within the purview of the Internal Audit team, which will produce an annual review for the Corporate Governance Committee. Internal Audit will also use the information from the risk management framework to inform their risk-based audit plan.

This closure report represents the views and recommendations of the workstream established to undertake the work of the Risk Management Review, as well as an evaluation of progress to date. With the Corporate Governance Committee's acceptance of the new risk management system, the project is now closed, and any outstanding actions will be part of business as usual.

PROJECT HIGHLIGHTS AND BEST PRACTICE

Project highlights include:

- A clear and consistently applied system throughout the council, with better accountability and engagement by officers.
- A simple but effective risk register template.

- A reduction in the size of risk registers, brought about by the clear separation of risks and issues, and the removal of duplication.
- A new Corporate Risk Register for which Corporate Directors and Cabinet Members are more clearly accountable.
- Comprehensive training delivered to the Corporate Executive, Senior Leadership and Middle Management teams, as well as elected Members (including Cabinet, Corporate Governance, and Performance Scrutiny).
- 42 new service risks and 6 new corporate risks identified.
- Where joint services are concerned, it was agreed with Conwy County Borough Council's corporate centre that Denbighshire's Risk Register template would be used.
- The final adoption of the new Guidance and Policy by Corporate Governance.

The project has demonstrated best practice in the following ways:

- A thorough review, which has included a desktop assessment of our systems; interviews with key stake-holders; workshops for the Corporate Executive and Senior Leadership teams.
- Good communication of the principles of the new system throughout.
- Strong working relationships between the Corporate Improvement Team and lead performance officers in services, providing reliable support and guidance as needed to help in the production of new service registers.
- Good communication between Corporate Improvement Officers, providing a useful forum to assess the strengths and weaknesses of service registers at every stage.
- The implementation of a significant culture change without disruption to the council's work.

PROJECT OUTPUT

- A new system that more clearly distinguishes between risks and issues, avoiding 'objective traps' where there is no uncertainty or event that would undermine delivery.
- Relevant plans and arrangements have been put in place to support this, including clear reporting and scrutiny mechanisms.
- Better integration of risk management with existing business planning processes, developing clear links with service plans.
- Strong support mechanisms through the relationship management role of Corporate Improvement Officers.
- The adoption of a 4-RAG system to better score risk severity.
- A system of risk categorisation.
- A system that allows for more independent challenge through Internal Audit to ensure the principles and requirements of managing risk are consistently adopted throughout the council.
- Risk registers that are clear and easy to follow.
- A Corporate Risk Register that accurately captures Corporate Risks, placing clear accountability with Corporate Directors and Cabinet Members.

REVENUE COST

The introduction of the new Risk Management system has resulted in some marginal cost savings. By virtue of the simplified template, the reduction in the size of the registers by some four-fifths has resulted in a saving of at least £270 annually in printing costs for the Service Performance Challenge programme. This figure is based on black-and-white costs only, not colour as has sometimes been the case, and does not take into account any additional copies printed within the services throughout the year.

There are no additional cost implications as a result of this project, and it is anticipated that a more focussed risk process will mean greater added value and better use of resources, as well as officer and Member time.

TIMESCALES

For the full project delivery plan, please see appendix II.

Project Stage		Start Date:	Finish Date:
0	Project Brief	02/03/11	11/05/11
1	Project Business Case	N/A	N/A
2	Project Delivery Plan	02/03/11	23/05/12
3	Implementation	06/07/11	08/02/12
4	Project Closure / Evaluation	02/05/12	23/05/12

QUALITY / SPECIFICATION

The implementation has been delivered within timescales and the desired outputs have been achieved within the scope of the project and without any additional impact or disruption to the work of the council or budget. The new service registers were well-received during the Service Performance Challenge programme, and members and officers have praised the new style and methodology for its simplicity. A report to the Corporate Governance Committee on February 8, 2012 introduced the new Corporate Risk Register, which was developed from the new service registers and focussed sessions with the Corporate Executive Team. The committee resolved that:

- a) *it receives the report;*
- b) *confirms that it is satisfied that the process for developing, monitoring and reviewing the Corporate Risk Register is robust.*

However, the Corporate Improvement Team has identified further work that is needed to fully embed the new system (see appendix III), there being some continuing issues around cultural change and the way in which the council understands 'risk'. In particular there is more work to be done in understanding the controls that are in place and applying

